**Tasg 1**

# Eliffantod rhyfeddol

## Gŵyl arbennig

Darllenwch y darn yma ac yna atebwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf.

| Hafan | Hanes | Gŵyl 2018 | Lluniau | Cysylltu â ni |
|---|---|---|---|---|

Ydych chi eisiau gwyliau gwahanol? Os ydych chi, meddyliwch am hyn …

Ym mis Mawrth, mae gŵyl eliffantod arbennig yn Jaipur, India. Mae'n cael ei chynnal ar y diwrnod cyn Holi, gŵyl arbennig i ddathlu dechrau'r Gwanwyn. Mae'n ŵyl liwgar sy'n llawn hwyl ac mae miloedd o bobl yn dod i'w mwynhau. Beth am ymuno â nhw y flwyddyn nesaf?

Yn ystod yr ŵyl, byddwch chi'n gweld eliffantod sydd wedi eu gwisgo'n hynod o smart - gyda'u tryncliau, eu coesau a rhannau eraill o'u cyrff wedi eu peintio'n hardd. Byddwch chi'n rhyfeddu atyn nhw - ac at y dynion sy'n eu reidio nhw gan eu bod nhw hefyd yn andros o smart! Byddan nhw i gyd yn gwneud eu gorau glas i ennill y darian ar gyfer yr 'Eliffant sydd wedi ei Addurno Orau'.

Ar ddechrau'r ŵyl, byddwch chi'n gweld yr eliffantod yn cerdded drwy'r strydoedd ac, wrth eu hochr, bydd cerddorion yn chwarae cerddoriaeth draddodiadol a dawnswyr yn perfformio dawnsiau traddodiadol. Nid eliffantod yn unig fydd yn yr orymdaith - bydd camelod a cheffylau hefyd.

Yna, bydd rasys a gemau arbennig ar gyfer yr eliffantod, e.e. gemau pêl-droed a gemau polo. Un gystadleuaeth arbennig llawn hwyl yw tynnu rhaff, sy'n dangos pa mor gryf yw'r eliffant, gan ei fod yn gallu tynnu mwy na thri deg o bobl. Efallai y cewch chi gyfle i fod yn rhan o'r tîm sy'n tynnu yn erbyn yr eliffant.

Beth amdani? Meddyliwch o ddifri a chysylltwch â ni am fwy o wybodaeth. Rydyn ni'n cynnig bargeinion arbennig iawn ar gyfer y flwyddyn nesaf!

| Geirfa | | |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | **Diffiniad** | **Saesneg** |
| gorymdaith | cerdded yn drefnus gyda phobl eraill, e.e. mewn seremoni neu garnifal neu brotest | procession |
| tarian | arf oedd yn cael ei ddal yn y llaw i ddiogelu'r corff; mae tarian yn cael ei rhoi fel gwobr, yn lle cwpan, yn aml. | shield |
| tynnu rhaff | cystadleuaeth lle mae dau dîm yn tynnu ar raff | tug-of-war |

Gweiddi

Atebwch y cwesitynau hyn.

1. Ble fyddech chi'n gweld y testun yma? (✓)

☐ a. ar y we
☐ b. mewn gwerslyfr
☐ c. mewn llyfr teithio
☐ ch. ar raglen deledu

Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Beth yw pwrpas y darn? (✓)

☐ a. beirniadu
☐ b. perswadio
☐ c. cwyno
☐ ch. canmol

Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Mae'r arddull yn:? (✓)

☐ a. ffurfiol
☐ b. cyfeillgar
☐ c. barddonol
☐ ch. ffeithiol

Rhowch reswm dros eich ateb.

4. Ticiwch (✓) **Cywir** neu **Anghywir**:

| | | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|---|
| a. | Mae'r Ŵyl Eliffantod yn digwydd ar ddiwedd y Gwanwyn | ☐ | ☐ |
| b. | Merched sy'n reidio'r eliffantod fel arfer. | ☐ | ☐ |
| c. | Dim ond trynciau a phennau'r eliffantod sy'n cael eu peintio. | ☐ | ☐ |
| ch. | Mae anifeiliaid eraill yn yr orymdaith fel arfer. | ☐ | ☐ |
| d. | Fel arfer, mae tua 20-30 o bobl yn tynnu'r rhaff yn erbyn eliffant. | ☐ | ☐ |

Cywirwch y brawddegau anghywir.